# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ23272, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, Y Prif Weinidog, ar 21 Mawrth 2003

**At Ann Jones:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 18 Mawrth, addewais ysgrifennu atoch ynglŷn â'r cynlluniau i ddelio ag argyfyngau yng Nghymru ar yr adegau pan fo'r gwasanaeth tân ar streic.

Yr wyf yn falch o ddweud bod pwyllgor gwaith Undeb y Brigadau Tân wedi canslo'r streic 24 awr a oedd wedi'i chynllunio ar gyfer neithiwr. Mae'r streiciau hyn yn fygythiad i ddiogelwch y cyhoedd, yn enwedig yn awr a ninnau'n wynebu'r posibilrwydd o wrthdaro milwrol yn Irac a mwy o fygythiad o derfysgaeth yma yn y DU.

Os caiff streiciau pellach eu galw, bydd y lluoedd arfog yn darparu gwasanaeth tân argyfwng unwaith yn rhagor. Yn fras, mae'r un nifer o bersonél milwrol yn cael eu neilltuo i ddarparu gwasanaeth argyfwng yn awr ag yr oedd adeg y streic gyntaf. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio na all y lluoedd milwrol gynnig yr un gallu ymladd tanau â'r hyn a ddarperir gan y gwasanaeth tân, ond byddant yn ceisio lleihau'r perygl i fywyd dynol yn ystod streiciau, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl. Diogelwch y cyhoedd yw'r flaenoriaeth. Bydd y lluoedd milwrol yn ceisio achub bywydau a sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal.

Pe bai digwyddiad mawr yn ystod streic gan y gwasanaeth tân, byddai'r lluoedd milwrol yn gwneud cymaint ag a fedrent, ond ni allent ddarparu'r ymateb a ddisgwyliwn gan y gwasanaeth tân. Lluniwyd cytundeb gan bob ochr, ar 22 Tachwedd, y byddai dynion tân ar streic yn ymateb i ddigwyddiadau terfysgol neu ddigwyddiadau sifil eraill mawr. Mae trefniadau wedi'u sefydlu hefyd i alw am gymorth wrth gefn oddi wrth frigadau cyfagos pe bai galw am weithgaredd cyson dros gyfnod o amser.

Bydd y lluoedd milwrol yn darparu gallu cyfyngedig i ddelio â digwyddiadau o'r math y cyfeiriwch atynt, gyda chymorth oddi wrth asiantaethau priodol eraill fel yr awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.